

Craidd

Sbardun 1 – Dau focs

Bocs bach, sgwâr ...

hardd,

wedi ei lapio

mewn papur arian sgleiniog

a rhuban melfed glas

mewn dwylo awchus.

Gwên lydan, hapus, wrth i'r plentyn,

ynghanol ei ffrindiau yn y parti,

dynnu'r rhuban a rhwygo'r papur,

gan geisio dyfalu

pa ryfeddod sydd yn

Y BOCS.



Bocs 2

Bocs, mawr, petryal

plaen,

o gardfwrdd

brown,

heb unrhyw addurn

o gwmpas corff blinedig.

Wyneb trist, gwag wrth i'r llanc

orwedd yn unig yn nrws siop fawr yn y dref,

gan dynnu'r bocs yn dynn amdano.

Ei unig gysgod rhag y gwynt a'r glaw -

Y BOCS.

Non ap Emlyn

Craidd

Sbardun 2 – Lapio... neu beidio?

Hendref
Ffordd y Dŵr
Rhuthun
Sir Ddinbych

Tachwedd 29, 2012

Annwyl Gweiddi

Lapio anrhegion

Ers mis Awst, mae siopau'r dref wedi bod yn gwerthu papur lapio. Maen nhw wedi bod yn cynnig bargeinion, chwarae teg, e.e. 10 metr o bapur Nadolig hardd am naw deg naw ceiniog. Mae'n edrych yn lliwgar iawn a dw i'n siwr y bydd plant bach wrth eu bodd yn rhwygo'r papur ar fore Dydd Nadolig, er mwyn gweld beth sydd y tu mewn iddo.

Popeth yn iawn! Mae'r plant yn cael hwy!! Gwych!

Fyddda i ddim yn prynu papur arbennig ar gyfer lapio'r anrhegion Nadolig eleni oherwydd mae'n wastraff papur ac yn wastraff arian! Byddda i'n lapio anrhegion - ond byddda i'n aildefnyddio papur lapio ers y llynedd neu byddda i'n defnyddio pethau eraill fel papur newydd a rhuban, darn o ddefnydd a rhuban, hen fap neu hen boster a rhuban. Bydd hyn yn rhad - ac yn bwysicach, bydd hyn yn wyrdd!

Fyddda i ddim yn gyfrifol am dorri unrhyw goeden i lawr er mwyn creu papur! Fyddda i ddim yn gyfrifol am wastraffu papur!

Dw i'n gwybod bod rhai pobl yn ailgylchu papur lapio ar ôl agor eu hanrhegion - ond dydy hyn ddim yn bosib bob tro. Allwch chi ddim ailgylchu papur sydd â thâp gludiog arno, er enghraifft, na phapur sgleiniog! Ble bydd y papur yma'n mynd ar ôl y Nadolig? I'r bin sbwriel ac yna i'r domen sbwriel.

Cyn i chi fynd ati eleni i lapio'r anrhegion, meddyliwch am beth dw i wedi ei ddweud uchod os gwelwch yn dda.

Pob hwyl i chi - a mwynhewch!

Ceri Jones

Oeddech chi'n gwybod?

Mae pobl Prydain yn gwastraffu llawer o bapur lapio adeg y Nadolig! Yn ôl yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael, taflodd pobl Prydain tua 227,000 milltir o bapur lapio Nadolig i ffwrdd y llynedd (2011). Mae hynna'n ddigon i fynd o gwmpas y byd naw gwaith!






Mae gwyddonwyr ym Manceinion wedi bod yn gweithio ar y syniad o wneud papur lapio o blu twrcïod! Mae hyn yn beth da iawn oherwydd mae miliynau o dwrcïod yn cael eu bwyta dros y Nadolig ac fe allai hyn fod yn ffordd dda o ddefnyddio'r holl blu.



Mae rhai gwyddonwyr yn gweithio ar y syniad o greu papur lapio o croen tatws a moron - sy'n syniad da o ystyried faint o datws a moron rydyn ni'n eu bwyta dros y Nadolig.

Craidd

Sbardun 3 – Cyrn i'r ci a thwtw i'r gath

 <p>Rhys</p>	<p>Dw i'n methu credu fy llygaid! Dw i newydd ddod yn ôl o'r dref ar ôl bod yn gwneud ychydig o siopa Nadolig, ac yno gwelais i rywbeth hollol hurt! Roedd ci mawr yn cerdded i lawr y stryd gyda'i berchennog ac roedd o (y ci!) yn gwisgo cyrn carw oedd yn fflachio!</p>
 <p>Erin</p>	<p>Dw i'n meddwl bod cyrn carw sy'n fflachio'n eitha cŵl ar gi. Does gan fy nghi i ddim cyrn yn fflachio - ond mae ganddo fo wig, sbectol haul a medal wnes i eu prynu iddo ar ei ben-blwydd y llynedd. Beth ydych chi'n feddwl? Cŵl neu beidio?</p>
 <p>Lyn</p>	<p>Prynais i tutu i Bonzo, fy nghi i, y llynedd. Mae o'n edrych yn hyfryd ynddo fo - ond dydy o ddim wedi dechrau gwneud bale eto!</p>
 <p>Ceri</p>	<p>Dw i'n mynd i brynu dillad i fy nghath i fel anrheg Nadolig eleni. Dw i'n meddwl bod cathod yn edrych yn smart iawn mewn dillad ac mae'n ffordd dda o gadw'n gynnes yn y tywydd oer!</p>
 <p>Iolo</p>	<p>Ydy pawb wedi mynd yn hollol wirion? Beth sy'n bod ar bawb? Ci yw ci - nid dawnsiwr mewn bale! Cath yw cath - nid person. Dydy cŵn, cathod, moch cwta, nac unrhyw anifail arall, ddim i fod i wisgo dillad - na chyrn sy'n fflachio! Mae'n annaturiol! Dydy cŵn, cathod, moch cwta - nac unrhyw anifail arall-ddim i fod i gael anrhegion Nadolig chwaith!</p>
 <p>Nia</p>	<p>Dim ond tipyn o hwyl yw e! Mae'n amlwg bod y ci yma'n hoffi ei wisg liwgar.</p>
 <p>Beth</p>	<p>Efallai - ond dydy gwneud hwyl am ben anifeiliaid ddim yn neis iawn.</p>



Dyfs

Byddai'n well gwario'r arian ar rywbeth arall - yn lle rhoddion twp i anifeiliaid.

Estynnol

Sbardun 1 – Rhoi... ar draws y byd

Fyddwch chi'n rhoi anrheg i rywun dros y Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd?

Pryd arall byddwch chi'n rhoi anrhegion?

I bwy?

Beth fyddwch chi'n ei roi?

Mae sut mae pobl yn rhoi anrhegion yn amrywio ar draws y byd, fel mae'r negeseuon e-bost yma'n dangos ...

Oddi wrth:janet@japweb.com

Dyddiad: 2 Rhagfyr 2012 20:37

At: gweiddi.org

Pwnc: Rhoi anrhegion

Annwyl Gweiddi

Dw i'n byw yn Japan ers chwe mis. Gan fod y Flwyddyn Newydd yn agosáu, dw i wedi bod yn dysgu sut mae pobl yn rhoi ac yn derbyn anrhegion yma - oherwydd mae rheolau anffurfiol ynglŷn â sut mae pobl i fod i roi i'w gilydd.

Yn Japan, mae pobl yn rhoi anrhegion i'w gilydd dros y Flwyddyn Newydd, er mwyn dathlu'r Flwyddyn Newydd, ac ar Orffennaf 15, er mwyn dathlu canol y flwyddyn. Yn ogystal, maen nhw'n rhoi anrhegion i ddathlu priodas, pan fydd babi'n cael ei eni, pan fydd plentyn yn llwyddo neu pan fyddan nhw'n symud i dŷ newydd. Yn draddodiadol, doedd pobl Japan ddim yn rhoi anrhegion pen-blwydd a Nadolig i'w gilydd, ond mae hyn yn dod yn fwy poblogaidd erbyn heddiw.



Llun: [Dominic's pics](#)

Mae sut rydych chi'n cyflwyno anrheg yn bwysig iawn yma. Rhaid defnyddio dwy law bob amser. Fel arfer, mae'r person sy'n derbyn yr anrheg yn gwrthod unwaith neu ddwywaith ond, yn y diwedd, mae'n derbyn, gan fod y person sy'n ei rhoi yn mynnu. Rhaid peidio ag agor yr anrheg ar unwaith. Rhaid aros!

Mae pobl Japan yn cymryd llawer o ofal wrth lapio anrhegion. Mae pob anrheg yn cael ei lapio'n hardd iawn, gan ddefnyddio papur neu focsys lliw pastel fel arfer. Dydyn nhw ddim yn defnyddio papur lliw gwyn oherwydd mae'r lliw yna'n gysylltiedig â marwolaeth.

Mae rhoi pâr neu dri neu wyth o rywbeth yn lwcus iawn. Mae rhoi pedwar neu naw o rywbeth yn anlwcus.

Yn aml iawn, mae pobl Japan yn rhoi anrheg i ddiolch am anrheg, er enghraifft adeg salwch neu farwolaeth neu enedigaeth.

Cofion at bawb yng Nghymru!

Janet Evans

Oddi wrth:rhys@gwealm.com

Dyddiad: 3 Rhagfyr 2012 12:23

At: gweiddi.org

Pwnc:Rhoi anrhegion yn Yr Almae

Mae pobl Yr Almaen wrth eu bodd yn rhoi ac yn derbyn anrhegion - yn enwedig adeg y Nadolig. Bob blwyddyn, mae marchnadoedd Nadolig arbennig yn agor yn y trefi ac maen nhw'n gwerthu bwyd, diod, addurniadau ac anrhegion bach traddodiadol.

Mae'r dathliadau Nadolig yn dechrau ar Ragfyr 6, Dydd Sant Niclas. Mae'r plant yn rhoi eu hesgidiau tu allan i'r drws yn y gobaith y bydd Sant Niclas yn dod heibio ac yn eu llenwi â losin a phethau melys eraill.

Ar Noswyl Nadolig, ar ôl bod i'r eglwys a chael pryd o fwyd, mae pawb yn agor eu hanrhegion Nadolig.

Pob hwyl a Nadolig Llawen.

Rhys Pritchard



Lluniau: Hedd ap Emlyn

Estynnol

Sbardun 2 – Anrheg flasus

Dydd Santes Dwynwen ... Dydd Sant Ffolant ... Sul y Mamau ... Sul y Tadau ... y Pasg ... pen-blwydd ... pen-blwydd priodas ... Y Nadolig ... mae un anrheg yn siŵr o blesio bob amser ...

SIOCLED!

Os ydych chi eisiau dweud "Llongyfarchiadau" ... neu ... "Brysiwch wella!" ... neu ... "Mae'n ddrwg gen i" ... neu ... "Diolch yn fawr" ... neu ... "Dw i'n dy garu di.", mae un anrheg yn siwr o godi gwên ...

Ie, SIOCLED!

Mae pobl wedi bod yn rhoi siocled i'w gilydd ers blynyddoedd ond efallai mai'r Frenhines Victoria ddechreuodd yr arfer o roi siocled fel anrheg Nadolig ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Roedd hi eisiau anfon rhodd at ei milwyr oedd yn ymladd yn Ne Affrica yn 1900. Beth anfonodd hi? Bar o siocled mewn tun arbennig.

Siocled amser maith yn ôl

Roedd pobl wedi bod yn mwynhau siocled cyn hyn, hyd yn oed - dros 3,000 o flynyddoedd yn ôl, efallai. Yr adeg yma, roedd coed coco'n tyfu yng nghoedwigoedd trofannol America Ganol a De America.

Yno, roedd llwythi'r Maiaid a'r Asteciaid yn defnyddio'r ffa i wneud diod siocled - ond nid diod siocled fel rydyn ni'n ei yfed! Roedden nhw'n ychwanegu tsili a sbeisys i'r ddiod! Roedd rhai pobl yn ysmegu siocled a tsili hefyd.

Roedd ffa siocled yn werthfawr iawn. Roedd pobl yn eu defnyddio nhw fel 'arian' - i brynu pethau.

Siocled yn dod i Ewrop

Yn ddiweddarach, aeth dynion o Sbaen a'r Eidal i'r ardal a daethon nhw â siocled yn ôl i Ewrop. I ddechrau, dim ond y bobl gyfoethog oedd yn ei yfed. Roedd rhaid aros tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg nes cael bar o siocled caled y gallai pobl ei fwyta ac roedd rhaid aros tan ddechrau'r ugeinfed ganrif nes bod y rhan fwyaf o bobl yn gallu fforddio prynu siocled.

Erbyn heddiw, mae gwahanol fathau o siocled ar gael - siocled tywyll, siocled llaeth, siocled gwyn, bariâu siocled, wyau siocled, ceirw siocled, wyau Pasg siocled a chwingod siocled. Rydyn ni'n defnyddio siocled ar gyfer gwneud gwahanol fwydydd hefyd, fel cacennau, pwdinau, bisgedi ac rydyn ni hyd yn oed yn ei roi mewn brechdan.

Ydy siocled yn dda i chi?

Mae rhai pobl yn dweud bod bwyta darn o siocled bob dydd yn dda i chi. Yn ôl rhai pobl, mae bwyta siocled tywyll yn helpu cylchrediad y gwaed ac mae'n gallu ymladd yn erbyn canser. Ond cofiwch, mae'n gallu bod yn beth drwg hefyd. Mae siocled yn cynnwys braster a siwgr ac mae gormod o'r rhain yn gwneud i chi roi pwysau ymlaen. Mae rhai pobl yn dweud bod siocled yn rhoi cur pen, neu ben tost, iddyn nhw - a hyd yn oed hunllefau.

Cofiwch hefyd, peidiwch byth â rhoi siocled cyffredin i'ch ci. Mae'r siocled rydyn ni'n ei fwyta yn cynnwys theobromine - sy'n ddrwg iawn i gi!



Llun : [Phil Champion](#)

Rhoi i'r gweithwyr

Mae siocled Cadbury yn enwog iawn. Mae'r cwmni'n enwog iawn hefyd oherwydd roedd perchnogion y cwmni'n trin eu gweithwyr yn dda iawn ...

John Cadbury ddechreuodd y cwmni yn 1824 - mewn siop fach yn Birmingham. I ddechrau, roedd y siop yn gwerthu te a choffi ond, yn 1831, dechreuodd werthu coco a diod siocled hefyd.

Yn 1879, agorodd y cwmni ffatri tua 4 milltir tu allan i'r ddinas. Roedd caeau o gwmpas y ffatri lle roedd y gweithwyr yn gallu chwarae criced, pêl-droed a hoci, ac roedd lle arbennig ar gyfer chwarae tennis a sboncen. Roedd gerddi hardd i gerdded ynddyn nhw ac roedd pyllau nofio ar gyfer dynion a merched.

Roedd pentref bach yma ar gyfer y gweithwyr. Roedd y cartrefi'n dda iawn, gydag ystafelloedd golau, braf ac roedd gan bob un ardd lle roedd y bobl yn gallu tyfu llysiau a ffrwythau.

Roedd cymuned agos iawn yma - roedd y gweithwyr yn teimlo eu bod yn perthyn i deulu agos.

Mae'n bosib mynd i weld y pentref yma heddiw - Bournville yw ei enw.

Estynnol

Sbardun 3 – Gafr mewn hosan

Fydd dim gafr yn eich hosan Nadolig chi eleni ... ond bydd rhai pobl yn derbyn gafr neu eifr fel rhoddion Nadolig.

Byddan nhw'n derbyn y rhoddion hyn drwy gynllun Present Aid.

Beth ydy cynllun Present Aid?

Cynllun arbennig lle rydych chi'n prynu cerdyn rhoddion i ffrind neu i aelod o'r teulu. Mae'r arian rydych chi'n ei dalu am y cerdyn yn cael ei wario ar rodd ar gyfer pobl dlawd mewn gwlad sy'n datblygu. Felly, rydych chi'n rhoi cerdyn i'ch ffrind neu i rywun yn y teulu ond mae'r cerdyn yn dangos eich bod chi wedi rhoi rhodd arbennig i rywun sydd angen eich help mewn gwlad arall.

Pa fath o rodd?

Mae llawer o wahanol fathau o roddion ac maen nhw i gyd yn helpu pobl dlawd, e.e.

- coed ffrwythau - fel bod teuluoedd yn Nicaragua yn cael ffrwythau i'w bwyta a'u gwerthu
- dillad ysgol, llyfrau a phapur - fel bod plant ym Mangladesh yn gallu mynd i'r ysgol
- can dŵr - fel bod pobl Burkina Faso, Affrica, yn gallu dyfrhau eu cnydau

a hyd yn oed ...

- ffynnon - fel bod pobl Kenyayn gallu cael dŵr yn eu pentref
- tŷ o friciau - fel bod pobl sydd wedi colli eu cartrefi oherwydd llifogydd neu drychineb arall yn cael cartrefi newydd.

Faint mae'r rhoddion yn costio a phwy sy'n eu cael nhw?

Dyma'r manylion am rai o'r rhoddion:

Beth: Rhwydi mosgito

Pris: £15 am dair rhwyd

I bwy: Pobl yn Affrica

Pam: Yn Affrica, mae un plentyn yn marw o falaria bob 45 eiliad. Mosgitos sy'n cario'r clefyd yma ac felly mae angen rhoi rhwyd o gwmpas gwelyau'r plant bob nos er mwyn cadw'r mosgitos allan. Mae'r rhwydi yma'n gallu achub bywyd, felly!

Beth: Gafr

Pris: £19

I bwy: Pobl Kenya, Affrica

Pam: Mae pobl dlawd y wlad yn cael llaeth i'w yfed a geifr bach i'w gwerthu yn y farchnad.

Beth: Pecyn arbennig i dyfu gardd sy'n arnofio

Pris: £18

I bwy: Pobl Bangladesh

Pam: Oherwydd bod llawer o lifogydd yn digwydd ym Mangladesh, mae'n anodd tyfu bwyd ar y tir. Dyma syniad gwych, felly - tyfu bwyd mewn gardd sy'n arnofio.

Beth: Hwyaidd

Pris: £31

I bwy: Pobl Bangladesh

Pam: Mae'r hwyaidd yn rhoi wyau i'r bobl eu bwyta, sy'n wych, gan fod tyfu cnydau mor anodd ym Mangladesh.

Sut mae prynu'r anrhegion hyn?

Mae'n bosib prynu'r rhoddion hyn:

- ar-lein - drwy fynd i wefan presentaid.org
- drwy edrych ar gatalog neu ar y wefan a llenwi ffurflen a'i phostio
- dros y ffôn

Heriol

Sbardun 1 – Diffodd y golau (detholiad)

Roedd 'na rywbeth
yn go arbennig
yn nhre'r Nadolig
pan ddiffoddodd y trydan.

Dim gwerthu ym Marks,
dim coffi yn y caffi,
y siopau'n dywyll fud;
fel petai'r gwir Nadolig
yn ceisio cael cyfle
i rannu'i genadwri.

Ac yr oedd rhywbeth yn braf
yn yr arafu,
yr eistedd, y disgwyl,
a'r siarad efo'n gilydd.

Roedd Duw yn deall yn union
beth oedd o'n ei wneud
pan dorrodd o'r cyflenwad trydan
Noswyl Nadolig.

Aled Lewis Evans

Heriol

Sbardun 2 – Hysbysebu

Mae llawer o hysbysebion am roddion Nadolig ar hyn o bryd - ar y teledu ... ar radio lleol ... mewn cylchgronau ... yn y siopau ... ac ... ar y we.

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r ddwy hysbyseb yma sy'n cael eu paratoi ar gyfer papur bro?

Hysbyseb 1



**CANOLFAN
HAMDDEN Y FRO**

Ydych chi'n chwilio am anrheg?

Beth am brynu anrheg iach i'ch ffrind eleni? Rydyn ni'n awgrymu eich bod chi'n prynu tocyn canolfan hamdden - yna gall eich ffrind ei gyfnewid am oriau yn y ganolfan hamdden - yn nofio neu'n chwarae badminton, yn gwneud gymnasteg neu gall ddod i un o'r gwersi cadw'n heini.

Bydd yr anrheg yma'n helpu'r amgylchedd hefyd - fyddwch chi ddim yn gwastraffu papur wrth i chi ei lapio a fyddwch chi ddim yn llygru'r awyr drwy fynd mewn car neu ar y bus i dref arall i wneud eich siopa. Felly, mae'n ddelfrydol!



Hysbyseb 2

CANOLFAN HAMDDEN Y FRO
Parc y Fro, Llanaber LB23 7TR
0765 777 5655
canhambro@gwecym.net
Tocyn i'r Ganolfan Hamdden:

Mae'n wyrdd!
Mae'n rhesymol!
Mae'n ddelfrydol!
Mae'n iach!

Ar gael - mewn cerdyn hyfryd:
Tocynnau gwerth £10, £15, £20



Yr anrheg berffaith - beth bynnag fo'r achlysur!

Hysbysebu

Mae hysbysebion yn bwysig iawn. Maen nhw'n ffordd dda o werthu pethau - fel rhoddion Nadolig. Os yw hysbyseb yn dda, gall berswadio rhywun i brynu rhywbeth.

Hysbysebu - dyma'r ffeithiau:

Yn 2011, cafodd dros £16 biliwn ei wario ar hysbysebu ar wahanol gyfryngau:

- Cafodd £4.78 biliwn ei wario ar hysbysebu ar y we.
- Cafodd £4.16 biliwn ei wario ar hysbysebu ar y teledu.
- Cafodd £3.9 biliwn ei wario ar hysbysebu mewn papurau newydd a chylchgronau.
- Cafodd £427 miliwn ei wario ar hysbysebu ar y radio.

Heriol

Sbardun 3 – Rhoi'n hael

Bill Gates yw un o ddynion cyfoethocaf y byd, os nad y cyfoethocaf ...

Bywyd cynnar Bill

Cafodd Bill Gates ei eni ar 28 Hydref 1955, yn Seattle, Unol Daleithiau America. Roedd ei dad yn gyfreithiwr a'i fam yn athrawes, cyn iddi roi'r gorau i'w swydd er mwyn magu'r teulu - Bill a'i ddwy chwaer.

Pan oedd Bill Gates yn blentyn, roedd wrth ei fodd yn chwarae gemau bwrdd ac yn darllen. Pan oedd yn 13 oed, dechreuodd gymryd diddordeb mewn cyfrifiaduron - diddordeb a oedd i ddatblygu mwy a mwy wrth iddo dyfu.

Roedd rhieni Bill - a'i fam yn arbennig - yn weithgar iawn gydag achosion da. Weithiau, byddai'n mynd â Bill i weld peth o'r gwaith gwirfoddol roedd hi'n ei wneud mewn ysgolion ac yn y gymuned.

Tra oedd yn yr ysgol uwchradd, daeth Bill yn ffrindiau â Paul Allen. Roedd gan y ddau ddiddordeb mawr mewn cyfrifiaduron a bydden nhw'n treulio llawer o'u hamser yn labordai cyfrifiaduron yr ysgol, yn gweithio ar raglenni.

Yn 1970, pan oedd Bill yn 15 oed, dechreuodd Bill a Paul fusnes a datblygon nhw raglen gyfrifiadurol i fonitro traffig Seattle.


I fyd y cyfrifiaduron

Ar ôl gadael yr ysgol, aeth Bill i Brifysgol Harvard, er mwyn astudio'r gyfraith, ond eto, roedd cyfrifiaduron yn ei ddenu. Oherwydd hynny, gadawodd y brifysgol cyn gorffen y cwrs ac aeth ati i weithio ar raglen gyfrifiadurol gyda'i ffrind, Paul Allen.



Yn 1975, ffurfiodd y ddau gwmni o'r enw Micro-Soft, sef cyfuniad o'r geiriau "micro-computer" a "software". Microsoft yw enw'r cwmni erbyn heddiw. Roedd y cwmni'n creu meddalwedd a thyfodd yn gwmni llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd.

Yn 1981, daeth Bill Gates yn Gadeirydd a Llywydd y cwmni a datblygodd y cwmni ymhellach. Erbyn 1983, roedd swyddfeydd gan y cwmni mewn gwahanol rannau o'r byd. Y flwyddyn wedyn, ymddiswyddodd Paul Allen o'r cwmni, ar ôl salwch difrifol.



Newidiadau



Roedd 1994 yn flwyddyn bwysig ym mywyd Bill. Dyma pryd y priododd â Melinda French, ond yn ogystal, dyma'r flwyddyn y bu farw ei fam, a oedd wedi bod mor weithgar gydag achosion da.

Penderfynodd Bill y dylai ddilyn esiampl ei fam. Sylweddolodd fod ganddo gyfrifoldeb i roi peth o'i gyfoeth i elusennau. Yn y flwyddyn honno, felly, gyda help ei wraig, Melinda, sefydlodd y William H. Gates Foundation i gefnogi addysg ac iechyd ar draws y byd ac i helpu cymunedau tlawd. Yna, yn y flwyddyn 2000,

cafodd y Bill and Melinda Gates Foundationei ffurfio.

Aeth Bill a'i wraig ati i weithio'n galed dros yr elusen ac erbyn 2006, roedd Bill wedi penderfynu gweithio llai i gwmni Microsoft ac i weithio mwy i'r elusen.

Rhoi i eraill

Erbyn heddiw, mae'r elusen wedi rhoi dros 26 biliwn o ddoleri i gynlluniau sy'n helpu pobl eraill.

Mae hanner yr arian yn cael ei wario ar geisio gwella problemau iechyd ar draws y byd, yn enwedig ymladd yn erbyn malaria, TB, AIDS a chlefydau eraill.

Mae chwarter yr arian yn cael ei wario ar brojectau sy'n helpu pobl dlawd y byd ac mae chwarter yn cael ei wario ar brojectau addysg yn yr Unol Daleithiau.

Gyda'u cyfoeth, mae Bill a'i wraig, Melinda, yn helpu i

- ymladd yn erbyn polio
- achub bywyd babanod sydd newydd eu geni
- gwella systemau dŵr a charthffosiaeth mewn gwledydd tlawd
- helpu ffermwyr tlawd mewn gwledydd sy'n datblygu i dyfu mwy o gnydau
- gwella llyfrgelloedd mewn gwledydd tlawd
- helpu myfyrwyr sydd angen help arbennig
- cefnogi ysgolion yn America
- helpu pobl ddigartref.

Dim ond rhai o'r projectau sy'n cael eu rhestru uchod - mae'r elusen yn helpu miliynau o bobl ar draws y byd - diolch i haelioni Bill a Melinda Gates.

Os hoffech chi ddarllen mwy am Bill Gates a'r elusen, ewch i:

<http://www.biography.com/people/bill-gates-9307520>

<http://www.gatesfoundation.org/about/Pages/foundation-fact-sheet.aspx>